Bwrdd Diogelu Plant Rhanbarthol Caerdydd a Bro Morgannwg
Cardiff and Vale of Glamorgan Regional Safeguarding Children Board

Caerdydd a Bro Morgannwg Byrdd Diogelu Oedolion Rhanbarthol
CaFBDOR
C&VRSAB
Cardiff & Vale of Glamorgan Regional Safeguarding Adults Board

Byrddau Diogelu Rhanbarthol
Caerdydd a Bro Morgannwg

Wythnos Diogelu Genedlaethol
15 - 19 Tachwedd 2021

Rhaglen Ddigwyddiadau

#DiogeluCymru

Ddydd Llun 15 Tachwedd 2021				
Amser	**Enw'r Digwyddiad a Disgrifiad ohono**	**Cynulleidfa darged**	**Lleoliad**	**Cadw lle/Manylion cyswllt**
/	**Lansio Padlet Diogelu Plant a Phobl Ifanc** Datblygwyd Padlet sy'n cynnwys fideos byr wedi'u recordio ymlaen llaw, animeiddiadau ac adnoddau a fydd yn cael eu rhannu ag ysgolion ledled Caerdydd a BM, sy'n ymdrin ag ystod o bynciau gwahanol wedi'u teilwra ar gyfer y materion a'r pryderon sy'n bodoli mewn ysgolion a'r rhai a brofwyd gan bobl ifanc yn ystod y pandemig. Bydd pynciau'n canolbwyntio ar iechyd meddwl a llesiant, bwlio ar-lein, camddefnyddio sylweddau, camfanteisio ac ati.			I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â: BDRhCaerdyddarFro@caerdydd.gov.ukBDRhCaerdyddarFro@caerdydd.gov.uk
10.00 - 11:00	**Y Samariaid – Ein Gwasanaeth, pwy ydym ni a beth rydym yn ei wneud** Mae'r sesiwn wybodaeth ar-lein hon ar gyfer unrhyw un a hoffai wybod mwy am y Samariaid a'r gwasanaeth rydym yn ei gynnig. Byddwn hefyd yn archwilio ffyrdd y gallwch agor sgwrs gyda rhywun y gallech fod yn poeni amdano	Unrhyw un sydd â diddordeb mewn dysgu mwy am y Samariaid, y gwaith a wnawn a sut y gallem fod yn berthnasol i gyfeirio pobl mewn capasiti proffesiynol neu bersonol	Microsoft Teams (Digwyddiad Byw)	Cadwch le drwy'r Uned Busnes yn BDRhCaerdyddarFro@caerdydd.gov.ukBDRhCaerdyddarFro@caerdydd.gov.uk
11:00 - 11:30	**Y Rhyngweithio rhwng Gamblo Niweidiol ac Iechyd Meddwl** ***(Robbie Thornhill, Prif Swyddog Gweithredu, ARA Recovery for All)*** Bydd y cyflwyniad yn canolbwyntio ar y rhyngweithio rhwng gamblo niweidiol ac iechyd meddwl, gan gynnwys y cysylltiadau rhwng gamblo a hunanladdiad, a sut mae gamblo ar lawer ystyr yw 'garbon monocsid' dibyniaeth, gan na welir effeithiau dibyniaeth gamblo nes cyrraedd pwynt argyfwng. Mae'n ddibyniaeth gudd, ac mae goresgyn	Gweithwyr proffesiynol Amlasiantaethol	Microsoft Teams (Digwyddiad Byw)	Cadwch le drwy'r Uned Busnes yn BDRhCaerdyddarFro@caerdydd.gov.ukBDRhCaerdyddarFro@caerdydd.gov.uk

#DiogeluCymru

	y cywilydd a'r stigma sy'n gysylltiedig ag ef yn hanfodol o ran hygyrchedd cymorth. Bydd y cyflwyniad yn cynnwys pwysigrwydd ymyrraeth gynnar a chodi ymwybyddiaeth o ddibyniaeth gamblo ymhlith gweithwyr proffesiynol ac arweinwyr mewn gweithleoedd, a bydd yn dirwyn i ben gyda chrynodeb o'r hyn y mae Ara yn ei wneud i annog gamblwyr a phobl yr effeithir arnynt gan gamblo rhywun sy'n annwyl iddynt i geisio cymorth.			
11:30 - 12:00	**Lansio Pecyn Hyfforddi Diogelu Aml-asiantaeth Plant a Pobl Ifanc BDRhCF** Cyfle i glywed trosolwg o gynnwys cwrs safonedig newydd y Bwrdd Diogelu, Beth sy'n Digwydd Nesaf - O'r Adroddiad i'r Casgliad. Mae'r cwrs gwybodaeth craidd hwn, sydd wedi'i anelu at unrhyw un* a allai fod yn rhan o adrodd am bryder neu gymryd rhan yn y broses yn dilyn adroddiad, yn canolbwyntio ar sut y gellid disgwyl i ymarferwyr gyfrannu at bob cam o'r broses a chymryd rhan ynddo. Yn ogystal, bydd y sesiwn hon yn esbonio sut y bydd y cwrs yn cael ei gynnig ledled Caerdydd a'r Fro, ac yn caniatáu ar gyfer cwestiynau.	*Aml-asiantaeth / Aml-Sector	Microsoft Teams (Digwyddiad byw)	Cadwch le drwy'r Uned Busnes yn BDRhCaerdyddarFro@caerdydd.gov.ukBDRhCaerdyddarFro@caerdydd.gov.uk
12:00 - 12:30	**Lansio Pecyn Hyfforddi Diogelu Aml-asiantaeth Oedolion BDRhCF** Cyfle i glywed trosolwg o gynnwys cwrs safonedig newydd y Bwrdd Diogelu, Beth sy'n Digwydd Nesaf - O'r Adroddiad i'r Casgliad. Mae'r cwrs gwybodaeth craidd hwn, sydd wedi'i anelu at unrhyw un* a allai	*Aml-asiantaeth / Aml-Sector	Microsoft Teams (Digwyddiad byw)	Cadwch le drwy'r Uned Busnes yn BDRhCaerdyddarFro@caerdydd.gov.ukBDRhCaerdyddarFro@caerdydd.gov.uk

	fod yn rhan o adrodd am bryder neu gymryd rhan yn y broses yn dilyn adroddiad, yn canolbwyntio ar sut y gellid disgwyl i ymarferwyr gyfrannu at bob cam o'r broses a chymryd rhan ynddo. Yn ogystal, bydd y sesiwn hon yn esbonio sut y bydd y cwrs yn cael ei gynnig ledled Caerdydd a'r Fro, ac yn caniatáu ar gyfer cwestiynau.			
13:00 - 14:30	**Gweithdy: Datrys Gwahaniaethau Proffesiynol** Nod y gweithdy hwn fydd codi ymwybyddiaeth ymarferwyr o'r protocol a sut y gellir ei weithredu i uwchgyfeirio a chodi pryderon o fewn cyd-destun amlasiantaeth. Caiff enghreifftiau lleol ac achosion o adolygiadau ymarfer plant a gyhoeddwyd eu hystyried fel senarios enghreiffthiol.	Gweithwyr proffesiynol Amlasiantaethol	Microsoft Teams (Digwyddiad Byw)	Cadwch le drwy'r Uned Busnes yn BDRhCaerdyddarFro@caerdydd.gov.ukBDRhCaerdyddarFro@caerdydd.gov.uk
13:00 - 13:30	**Ymwybyddiaeth Ofalgar Fach *(Llyfrgell Rhydypennau)*** Ymunwch â ni am hyd at awr o ymwybyddiaeth ofalgar, fydd yn cynnwys sgwrs, rhai ymarferion ymwybyddiaeth ofalgar, hyd yn oed cân yr wythnos. Cysylltwch â Sue Thompson am wahoddiad Microsoft Teams	**Sesiwn Gaeedig** (ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth yn unig)	Microsoft Teams (Digwyddiad byw)	I gael rhagor o fanylion, cysylltwch ag: Sian.Young2@cardiff.gov.uk
14:00 - 15:00	**Michael Taggart, Swyddog Strategol** Cam-drin Domestig, Uned Amddiffyn Pobl Agored i Niwed Bydd y cyflwyniad yn cynnwys gwybodaeth am Gam-drin Domestig ym maes Plismona, ymddygiad rheoli a chymhellol a stelcio. Cam-drin Domestig – ydy e'n seiliedig ar rywedd? Stori Dioddefwr.	Bydd Cam-drin Domestig yn effeithio ar bawb – boed hynny'n brofiad personol, neu'n dystio fel gwyliwr – mae'n fater i bawb a bydd y cyflwyniad hwn o fudd i bawb.	Microsoft Teams (Digwyddiad Byw)	Cadwch le drwy'r Uned Busnes yn BDRhCaerdyddarFro@caerdydd.gov.ukBDRhCaerdyddarFro@caerdydd.gov.uk

15:30 – 16:30	**Drinkaware: Effaith COVID ar Ymddygiad Alcohol** Mae Drinkaware yn elusen annibynnol sy'n gweithio i leihau camddefnyddio a niwed alcohol yn y DU. Rydym yma i helpu pobl i wneud dewisiadau gwell o ran yfed alcohol. Arweinir ei waith gan ymchwil helaeth i effeithiau yfed alcohol niweidiol. Bob blwyddyn mae Drinkaware yn comisiynu arolwg i olrhain a deall arferion yfed alcohol y genedl. Eleni roeddem am ddeall yr effaith y mae'r pandemig wedi'i chael ar arferion yfed alcohol y genedl. Bydd y sesiwn hon yn adolygu rhai o ganlyniadau allweddol Drinkaware Monitor 2020: Drinking and the coronavirus pandemic. Yn bwysig iawn, bydd tîm Drinkaware hefyd yn rhoi diweddariad ar yr adnoddau ymarferol sydd ar gael i weithwyr proffesiynol a chyflogwyr i gefnogi iechyd a lles eu gweithlu ac unigolion sydd mewn perygl o yfed alcohol niweidiol	Pob Gweithiwr Proffesiynol sy'n cynghori ar ymwybyddiaeth o alcohol, cyflogwyr sy'n dymuno cefnogi staff gyda lles ac iechyd a diogelwch	Microsoft Teams (Digwyddiad Byw)	Cadwch le drwy'r Uned Busnes yn BDRhCaerdyddarFro@caerdydd.gov.ukBDRhCaerdyddarFro@caerdydd.gov.uk

#DiogeluCymru

Dydd Mawrth 16 Tachwedd 2021				
Amser	**Enw'r Digwyddiad a Disgrifiad ohono**	**Cynulleidfa darged**	**Lleoliad**	**Cadw lle/Manylion cyswllt**
10:00 – 12:00	**Peter Thomas, Cynghorydd y Lluoedd Arfog ar Iechyd Meddwl** ynghyd ag 1/2 siaradwr arall Bydd Heddlu De Cymru yn cyflwyno sut mae'n ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaethau, ei bartneriaid ym maes iechyd, gwasanaethau cymdeithasol a'r trydydd sector a sut mae Heddlu De Cymru'n rheoli'r risg i'r unigolyn ac yn diogelu'r cyhoedd.	Gweithwyr proffesiynol	Microsoft Teams (Digwyddiad Byw)	Cadwch le drwy'r Uned Busnes yn BDRhCaerdyddarFro@caerdydd.gov.ukBDRhCaerdyddarFro@caerdydd.gov.uk
10:00 - 11:00	**Sesiwn Ymwybyddiaeth o Ddementia –** ***(gyda Swyddog Ymgysylltu â'r Gymuned Gwasanaethau Byw'n Annibynnol a Hyrwyddwr Dementia Helen Harris)*** Mae Helen Harris yn Swyddog Ymgysylltu â'r Gymuned ar gyfer y Tîm Cyfleoedd Dydd o fewn Gwasanaethau Byw'n Annibynnol. Mae Helen wedi gweithio gyda llawer o ddefnyddwyr gwasanaeth sy'n byw gyda dementia ac wedi dod yn angerddol am y maes hwn o'i gwaith. Hyfforddodd Helen i fod yn Hyrwyddwr Dementia ac mae wedi cynnal amrywiaeth o sesiynau Ymwybyddiaeth Dementia. Diben y cyflwyniad hwn fydd codi ymwybyddiaeth o ddementia ac egluro sut y gellir cefnogi'r rhai sy'n byw gyda'r cyflwr a byw'n dda.	Gweithwyr proffesiynol Amlasiantaethol	Microsoft Teams (Digwyddiad Byw)	Cadwch le drwy'r Uned Busnes yn BDRhCaerdyddarFro@caerdydd.gov.ukBDRhCaerdyddarFro@caerdydd.gov.uk
10:00 - 12:00	**Bore Coffi Rhithwir Canolfan Gymunedol Maes-y-coed.** Os ydych chi'n teimlo ychydig yn unig, ymunwch â ni am sgwrs yn ein bore coffi rhithwir.	**Sesiwn Gaeedig** (ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth yn unig)	Microsoft Teams (Digwyddiad byw)	I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch â: bookings@myc.wales

#DiogeluCymru

11:00 – 12:00	**Bore Coffi ar Thema Diogelu** I gynnwys cyflwyniad ar 'Thema Diogelu' a gyflwynir gan yr Hyrwyddwyr Cymunedol yn ogystal â raffl	**Digwyddiad Caeedig** (ar agor i Denantiaid a Lesddeiliaid Caerdydd yn unig)		Jack Slowinski
12:00 – 13:00	**Gwasanaeth Digwyddiad Seicosis Cyntaf Barnardo's -** ***(Rheolwr Gwasanaethau Plant; Hayley Smith a Gweithiwr Prosiect Laura Dyer)*** Ymwybyddiaeth Digwyddiad Seicosis Cyntaf - byddwn yn rhoi trosolwg o Seicosis i gynyddu dealltwriaeth cyfranogwyr o'r arwyddion a'r symptomau. Fel rhan o dîm amlddisgyblaethol Headroom, byddwn yn amlinellu'r gwasanaethau sydd ar gael i bobl ifanc sy'n profi eu digwyddiad cyntaf a pha asiantaethau cymorth a all gyfrannu at adferiad y bobl ifanc	Ar agor i'r holl staff a rheolwyr sy'n cefnogi pobl ifanc rhwng 16 a 25 oed	Digwyddiad Rhithwir - cyfarwyddiad au ymuno yn nes at y dyddiad	Cysylltwch â Gweinyddwr Ardal Caerdydd a'r Fro i gadw lle CardiffandValeLocalityAdmin@barnardos.org.uk
14:00 - 15:00	**Cyflwyniad i PAPYRUS - Atal Hunanladdiad Pobl Ifanc** ***(gan Kate Henegan, Pennaeth Papyrus yng Nghymru)*** Prif Amcanion: • Codi ymwybyddiaeth o Hunanladdiad ac Atal Hunanladdiad. • Hyrwyddo PAPYRUS - beth rydym yn ei wneud, sut y gallwch chi helpu a sut y gallwn eich helpu. • Datblygu Gobaith ar gyfer cymuned sy'n fwy diogel rhag hunanladdiad. • Deall pwysigrwydd hunanofal. Hefyd *yn cyflwyno "Sinking Feeling", a grëwyd ar y cyd â stiwdio animeiddio arobryn BAFTA, Blue Zoo*	Gweithwyr proffesiynol Amlasiantaethol	Microsoft Teams (Digwyddiad Byw)	Cadwch le drwy'r Uned Busnes yn BDRhCaerdyddarFro@caerdydd.gov.ukBDRhCaerdyddarFro@caerdydd.gov.uk

#DiogeluCymru

	Animation Studio. Mae "Sinking Feeling" yn archwilio themâu teimlo'n unig, wedi'i allgáu a phwysigrwydd cefnogaeth gan gymheiriaid; mae'n mynd i'r afael â'r realiti torcalonnus y mae llawer o blant a phobl ifanc yn ei ddioddef mewn distawrwydd heb y cymorth a'r gefnogaeth hanfodol sydd eu hangen arnynt.'			
14:00 - 15:00	**Cyflwyniad Gwasanaethau Byw'n Annibynnol** **(*gan Arweinydd Tîm Cyfleoedd Dydd, Chelsey Hayes)*** *Mae Gwasanaethau Byw'n Annibynnol yn wasanaeth gan Gyngor Caerdydd sy'n darparu dull sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn i rymuso trigolion Caerdydd i fyw'n annibynnol gartref a chysylltu â'u cymuned. Diben y cyflwyniad hwn yw rhoi trosolwg o'r gwasanaeth a sut maent wedi ailgysylltu â thrigolion hŷn a bregus yn eu cymuned.* *Bydd 'astudiaeth achos fyw' ynghyd ag enghreifftiau o'r rhai sydd wedi elwa ar y gwasanaeth hwn.*	Gweithwyr proffesiynol Amlasiantaethol	Microsoft Teams (Digwyddiad byw)	Cadwch le drwy'r Uned Busnes yn BDRhCaerdyddarFro@caerdydd.gov.uk BDRhCaerdyddarFro@caerdydd.gov.uk
15:00 - 16:00	**'Effaith iechyd meddwl y pandemig ar weithwyr proffesiynol a'r boblogaeth' -** Yr athro Jon Bisson, Adran Meddygaeth Seicolegol a Niwrowyddoniaeth Glinigol, Ysgol Feddygaeth Prifysgol Caerdydd	Gweithwyr proffesiynol Amlasiantaethol	Microsoft Teams (Digwyddiad byw)	Cadwch le drwy'r Uned Busnes yn BDRhCaerdyddarFro@caerdydd.gov.uk BDRhCaerdyddarFro@caerdydd.gov.uk
15:00 - 17:00	**Magu Gwydnwch yn erbyn Trais ac Eithafiaeth (BRAVE)**	Gweithwyr proffesiynol Amlasiantaethol - (gweithio ym maes diogelu)	Microsoft Teams (Digwyddiad byw)	https://www.eventbrite.co.uk/e/171721813567

#DiogeluCymru

	(Tîm PREVENT Caerdydd -wedi'i ddarparu gan Connect Futures ac Ymddiriedolaeth St Giles) Bydd y gweithdy BRAVE yn canolbwyntio ar y broses o feithrin perthnasoedd amhriodol ar-lein ag unigolion sy'n cael eu perswadio a'u hecsbloetio i eithafiaeth neu linellau cyffuriau a sut mae'r broses o feithrin perthnasoedd amhriodol yn cael ei chopïo gan grwpiau sy'n ceisio ecsbloetio'r rhai sy'n agored i niwed i ddod yn droseddwyr neu'n derfysgwyr.			Manylion archebu i ddilyn I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch â: Thomas.Noaks3@caerdydd.gov.uk Nicola.Winstanley@caerdydd.gov.uk

Dydd Mercher 17 Tachwedd 2021				
Amser	**Enw'r Digwyddiad a Disgrifiad ohono**	**Cynulleidfa darged**	**Lleoliad**	**Cadw Lle/manylion cyswllt**
10:00 – 11:00	***Sally Holland, Comisiynydd Plant Cymru* - Defnyddio dull hawliau plant i drawsnewid sut mae Caerdydd a'r Fro yn diogelu iechyd meddwl a lles plant: cynnydd a'r camau nesaf** Bydd yn amlinellu egwyddorion dull gweithredu hawliau plant fel y'i cymhwysir at gefnogi ac ymateb i anghenion iechyd meddwl a lles plant a phobl ifanc. Yna, bydd yr Athro Holland yn trafod canfyddiadau ei harolwg o blant a phobl ifanc yn ystod dau gyfnod 'cloi' - ym mis Mai 2020 ac ym mis Ionawr 2021, gan nodi rhywfaint o adborth penodol gan blant yng Nghaerdydd a'r Fro. Bydd yn amlinellu'r hyn y gellir ei ddysgu o'r arolygon hyn, a sut y mae'n bwysicach nag erioed bod rhaid i ni weithio gyda'n gilydd i weithredu dull Dim Drysau Anghywir o ymdrin ag iechyd meddwl a lles plant. Bydd yn ystyried annog cynnydd a rhwystrau parhaus yn rhanbarth Caerdydd a'r Fro.	Gweithwyr Proffesiynol Amlasiantaethol sy'n cefnogi iechyd meddwl a lles plant a phobl ifanc ar draws y gwahanol leoliadau y mae plant yn rhyngweithio â hwy	Microsoft Teams (Digwyddiad Byw)	Cadwch le drwy'r Uned Busnes yn BDRhCaerdyddarFro@caerdydd.gov.ukBDRhCaerdyddarFro@caerdydd.gov.uk
10:00 - 12:30 a 13:30 – 16:00	Mae Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol Cymru, mewn partneriaeth â'r Uned Atal Trais, yn falch o gyhoeddi cynhadledd ar-lein: **Wythnos Genedlaethol Diogelu 2021** **Diogelu Oedolion** Gyda chyflwyniadau gan:-	Multi-Agency Professionals within Adult Safeguarding	Microsot Teams (Digwyddiad Byw) Digwyddiad rhithwir byw fydd hwn, felly bydd modd i chi fynychu'r sesiynau fel y	National Safeguarding Week 2021: Adult Safeguarding Conference Tickets, Wed 17 Nov 2021 at 10:00 | Eventbrite

#DiogeluCymru

	Helena Herklots – Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru Athro Suzy Braye – Athro Emerita Gwaith Cymdeithasol / Prifysgol Sussex Alistair Davey – Llywodraeth Cymru Dr Alyson Rees a Dr Thomas Slater – Ysgol y Gwyddorau Cymdeithasol / Prifysgol Caerdydd Gillian Baranski a Vicky Poole, Arolygiaeth Gofal Cymru Jon Drake a Lara Snowdon – Uned Atal Trais Cymru - Wales Violence Prevention Unit		bydd amser yn caniatáu.	
12:00 – 13:00	**Ymyrraeth gynnar a chymorth i blant a phobl ifanc sy'n profi gorbryder** - **(Gwasanaeth Lles Teuluoedd Caerdydd Barnardo's - Hayley Smith, Ceri Ann Hunt, Emma Reed)** Trosolwg o arwyddion a symptomau gorbryder. Byddwn yn amlinellu dulliau ymyrraeth gynnar y gellir eu defnyddio i gefnogi plant a phobl ifanc sy'n profi gorbryder, a allai helpu i atal yr angen i uwchgyfeirio	Gweithwyr cymorth ac ymarferwyr sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc	Digwyddiad Rhithwir - cyfarwyddiad au ymuno yn nes at y dyddiad	Cysylltwch â Gweinyddwr Ardal Caerdydd a'r Fro i gadw lle CardiffandValeLocalityAdmin@barnardos.org.uk
13:00 - 14:00	***Lles ar Ddydd Mercher*** *Grwpiau cymdeithasol sy'n cynnwys ymarfer corff dwysedd isel a sgwrs gyfeillgar.*	**Sesiwn gaeedig** (ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth yn unig)		I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch â: Sian.Young2@caerdydd.gov.uk
14:00 - 16:00	***Sefydliad Jacob Abraham, yn cyflwyno sesiynau gan Bryn Morgan a Hannah Denman*** Gweithdy Ymyrraeth Fer Hunanladdiad: Lleihau'r stigma sy'n	Gweithwyr Iechyd Meddwl Proffesiynol ac Aelodau'r Gymuned	Microsoft Teams (Digwyddiad Byw)	Cadwch le drwy'r Uned Busnes yn BDRhCaerdyddarFro@caerdydd.gov.ukBDRh

	gysylltiedig â Hunanladdiad, cynnig dealltwriaeth o'r ffactorau sy'n cyfrannu at Hunanladdiad ac arwyddion rhybudd, sut i gyfathrebu'n dosturiol os ydych chi'n poeni am rywun, yn darparu sgiliau ymarferol, yn cefnogi ac yn cyfeirio teuluoedd, ffrindiau, cymunedau sydd mewn profedigaeth oherwydd Hunanladdiad.			CaerdyddarFro@caerdydd.gov.uk

Dydd Iau 18 Tachwedd 2021				
Amser	**Enw'r Digwyddiad a Disgrifiad ohono**	**Cynulleidfa darged**	**Lleoliad**	**Cadw lle/Manylion cyswllt**
10:00 - 11:00	**Sesiwn Ymwybyddiaeth o Ddementia –** (***gyda Swyddog Ymgysylltu â'r Gymuned Gwasanaethau Byw'n Annibynnol a Hyrwyddwr Dementia Helen Harris)*** *Mae Helen Harris yn Swyddog Ymgysylltu â'r Gymuned ar gyfer y Tîm Cyfleoedd Dydd o fewn Gwasanaethau Byw'n Annibynnol. Mae Helen wedi gweithio gyda llawer o ddefnyddwyr gwasanaeth sy'n byw gyda dementia ac wedi dod yn angerddol am y maes hwn o'i gwaith. Hyfforddodd Helen i fod yn Hyrwyddwr Dementia ac mae wedi cynnal amrywiaeth o sesiynau Ymwybyddiaeth Dementia. Diben y cyflwyniad hwn fydd codi ymwybyddiaeth o ddementia ac egluro sut y gellir cefnogi'r rhai sy'n byw gyda'r cyflwr a byw'n dda.*	Gweithwyr proffesiynol Amlasiantaethol	MS Teams (Digwyddiad byw)	Cadwch le drwy'r Uned Busnes yn BDRhCaerdyddarFro@caerdydd.gov.ukBDRhCaerdyddarFro@caerdydd.gov.uk
10:00 - 11:00	**Sefydliad Atgofion Chwaraeon -** Defnyddio pŵer atgofion a siarad am chwaraeon i fynd i'r afael â dementia, iselder ac unigedd.	**Sesiwn gaeedig** (ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth yn unig)	MS Teams (Digwyddiad byw)	I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch â: Nikki.Foster@thesmf.co.uk
11:00 - 12:00	**Iechyd meddwl, dyled, a benthycwyr arian didrwydded – *Liz Emmons, Yr Uned Benthyca Arian*** Adolygiad cychwynnol o'r cysylltiadau sefydledig rhwng problemau iechyd meddwl a dyled. Darluniau o'r ffyrdd y mae benthycwyr arian didrwydded yn manteisio ar y problemau hyn, a chyngor ynghylch sut y gall staff rheng flaen mewn sawl rôl	Staff/gwirfoddolwyr rheng flaen sy'n dod i gysylltiad ag oedolion sy'n agored i niwed, boed yn ymwneud â chymorth neu gyngor, neu mewn rolau gorfodi (e.e. ôl-ddyledion rhent).	Microsoft Teams (Digwyddiad Byw)	Cadwch le drwy'r Uned Busnes yn BDRhCaerdyddarFro@caerdydd.gov.ukBDRhCaerdyddarFro@caerdydd.gov.uk

#DiogeluCymru

	ymgysylltu ag UBAAC i gynorthwyo eu defnyddwyr gwasanaeth.			
12:30 - 16:00	**"Yr Hawl i fod yn Ddiogel - atal ac ymateb i gam-drin a chamfanteisio'n rhywiol ar blant yng Nghymru"** Cyflwyniadau gan: ▪ *Mai Baxter-Thornton ac Emma Lewis*, Ymchwiliad Annibynnol i Banel Ymgynghorol Dioddefwyr a Goroeswyr Cam-drin Plant yn Rhywiol ▪ *Adam Richard Kaps*, Gweithiwr Ieuenctid a Goroeswr ▪ *Anna Glinski*, Dirprwy Gyfarwyddwr (Datblygu Gwybodaeth ac Ymarfer) Canolfan Arbenigedd ar gam-drin plant yn rhywiol ▪ *Dr Sophie Hallett*, Prifysgol Caerdydd ▪ *Sharron Wareham*, Gwell Dyfodol, Rheolwr Gwasanaeth, Barnardo's Cymru ▪ *Claire Short* , Stop it Now Wales, Rheolwr Cenedlaethol Cymru			Sam Clutton, Llywodraeth Cymru (Rhagor o fanylion i ddilyn a byddant yn cael eu dosbarthu o'r BU)
14:00 - 15:00	**Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru – *Andrea Cooper, Arweinydd Diogelu a Val Billingham, Arweinydd Iechyd a Gofal Cymdeithasol*** Byddwn yn archwilio effeithiau posibl y pandemig ar iechyd meddwl pobl hŷn, gan gynnwys cynnydd posibl yng ngham-drin pobl hŷn (sy'n deillio er enghraifft o fwy o unigedd cymdeithasol a thynnu trefniadau monitro arferol yn ôl).	Ymarferwyr, llunwyr polisi ac eraill sydd â diddordeb mewn hyrwyddo lles pobl hŷn	Microsoft Teams (Digwyddiad Byw)	Cadwch le drwy'r Uned Busnes yn BDRhCaerdyddarFro@caerdydd.gov.ukBDRhCaerdyddarFro@caerdydd.gov.uk

#DiogeluCymru

Dydd Gwener 19 Tachwedd 2021				
Amser	**Enw'r Digwyddiad a Disgrifiad ohono**	**Cynulleidfa darged**	**Lleoliad**	**Cadw Lle/manylion cyswllt**
10:00 - 11:00	**BAWSO - Iechyd meddwl dioddefwyr cam-drin domestig o safbwynt BME** Cefndir ar y ffurfiau ar gam-drin domestig mewn cymunedau BME a'r rhwystrau a wynebir gan oroeswyr. Bydd hwn yna'n symud at sut mae rhwystrau'n gwaethygu iechyd meddwl. Stori goroesi (os yn bosib) a rhai ffigurau o gleientiaid rydym wedi'u cefnogi hyd yma	Ymarferwyr sy'n gweithio ym maes cam-drin domestig, gan gynnwys dioddefwyr o gefndiroedd BME sydd wedi dioddef anffurfio organau cenhedlu benywaidd, priodas dan orfod a thrais anrhydedd. Goroeswyr cam-drin o bob cefndir	Microsoft Teams (Digwyddiad Byw)	Cadwch le drwy'r Uned Busnes yn BDRhCaerdyddarFro@caerdydd.gov.ukBDRhCaerdyddarFro@caerdydd.gov.uk
11:00 - 12:00	**Tai Chi gyda Jeanette Edwards** – Tai Chi dwysedd isel wrth eistedd drwy Zoom.	Sesiwn gaeedig (ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth yn unig)	Rhithwir (drwy Zoom)	I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch â: jeanetteedwards373@yahoo.co.uk
12:00 – 14:30	**Newid o ran Alcohol, Mike Ward** Gweithdy Diogelu Yfwyr sy'n Ddibynnol ar Alcohol Sy'n Agored i Niwed - Mae'r gweithdy wedi'i gynllunio i alluogi gweithwyr proffesiynol yng Nghymru a Lloegr i ddefnyddio fframweithiau cyfreithiol i reoli ac amddiffyn yfwyr sy'n gronig gaeth i alcohol. Mae'r gweithdy hwn yn canolbwyntio ar sut i wneud y defnydd mwyaf effeithiol o'r tri phrif bŵer cyfreithiol a all amddiffyn yfwyr dibynnol sy'n agored i niwed: y Ddeddf Gofal, y Ddeddf Galluedd Meddyliol a'r Ddeddf Iechyd Meddwl. Mae hefyd yn canolbwyntio ar lond llaw o bwerau perthnasol eraill megis pwerau ymddygiad gwrthgymdeithasol. Yn ogystal,	Mae'r gweithdy'n briodol ar gyfer staff ym mhob gwasanaeth sy'n gweithio gyda phobl sy'n wynebu risg o niwed sy'n gysylltiedig ag alcohol. Bydd hyn yn cynnwys unrhyw un sy'n gweithio mewn rolau sy'n wynebu'r cyhoedd ym maes iechyd, gofal cymdeithasol, cyfiawnder troseddol, diogelwch cymunedol, tai, digartrefedd, cam-drin domestig neu rolau gofal eraill	Microsoft Teams (Digwyddiad Byw)	Cadwch le drwy'r Uned Busnes yn BDRhCaerdyddarFro@caerdydd.gov.ukBDRhCaerdyddarFro@caerdydd.gov.uk

#DiogeluCymru

	mae'n pwysleisio pwysigrwydd fframwaith o brosesau a fydd yn galluogi'r pwerau i gael eu defnyddio'n fwyaf effeithiol ac mae'n archwilio beth yw cynllun gofal da ar gyfer y grŵp cleientiaid hwn			
15:30 – 17:45	**Seremoni Gwobrau Cydnabod Diogelu** Dathlu toreth o gyfraniadau rhagorol at ddiogelu mewn cyd-destun amlasiantaethol a chydnabod y rhai sydd wedi cael effaith sylweddol ar fywydau pobl.	Aelodau Bwrdd BDRhCaF/ Enwebwyr / Enwebeion (drwy wahoddiad yn unig)	MS Teams (Digwyddiad Byw)	I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch â: BDRhCaerdyddarFro@caerdydd.gov.uk BDRhCaerdyddarFro@caerdydd.gov.uk

#DiogeluCymru

DIGWYDDIADAU YCHWANEGOL DRWY GYDOL YR WYTHNOS			
Enw'r Digwyddiad a Disgrifiad ohono	**Cynulleidfa Darged**	**Lleoliad**	**Cadw Lle /Manylion Cyswllt**
Mae'r Tîm Ymchwiliadau Mawr a Diogelu (Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir) yn y cyfnod cyn ac yn ystod Wythnos Genedlaethol Diogelu wedi trefnu'r digwyddiadau codi ymwybyddiaeth o'r canlynol: • **Digwyddiad Bws Symudol** • **Hysbysiadau ar Fyrddau Hysbysebu a Bysiau Lleol** (ledled Caerdydd/Bro Morgannwg/Pen-y-bont ar Ogwr) • **Darllediad/Podlediad ar Bro Radio - (gan Steven Bumford, GRhR)** Codi ymwybyddiaeth am sgamiau/troseddau ar garreg y drws a gwahanol ffyrdd y gall cymunedau amddiffyn eu hunain a rhoi gwybod am ddigwyddiadau.	Y cyhoedd sy'n byw yng Nghaerdydd/Bro Morgannwg	Caerdydd/Bro Morgannwg/Pen-y-bont ar Ogwr	Rhagor o wybodaeth: ahunt@valeofglamorgan.gov.uk
Cynllun Tai/Tai Gwarchod Bro Morgannwg Dosbarthu taflenni a chynnal sgyrsiau gyda thrigolion drwy gydol yr wythnos i godi ymwybyddiaeth am negeseuon diogelu allweddol.	Cynllun Tai/Tai Gwarchod Bro Morgannwg	Bro Morgannwg	Rhagor o wybodaeth: faslam@valeofglamorgan.gov.uk

#DiogeluCymru